

Thornhill Road - Cyfleusterau i Gerddwyr

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae Gwelliannau Priffordd yn cael eu cynnwys yn rhan o gytundeb cynllunio sy'n gysylltiedig â'r gwaith datblygu tai lleol sydd ar y gweill yn 150 Thornhill Road. Ariennir y gwaith hwn gan y datblygiad.

Mae'r gwelliannau priffordd a ddangosir ar y cynllun atodedig yn cynnwys gwaredu'r ynys draffig bresennol a gosod croesfan sebra ddirchafedig newydd ar Thornhill Road. Yn rhan o'r mesurau hyn, caiff y safleoedd bysus eu huwchraddio yn yr ardal a chaiff y cyfyngiad cyflymder ei ostwng o 40mya i 30mya o Bont y M4 i'r lleoliad lle y mae'r cyfyngiad cyflymder presennol yn newid, sef ychydig i'r gogledd o Heol Llanisien Fach ar Thornhill Road. Bydd cyflwyno'r mesurau hyn yn lleihau cyflymder cerbydau o fewn ardal y datblygiad preswyl arfaethedig i wella mynediad at safleoedd bysus.

Mae angen newid y bwrdd arafu a'r cyfyngiad cyflymer i sicrhau bod cyflymderau nesáu cerbydau priodol ar waith ar gyfer y groesfan sebra arfaethedig ac er mwyn helpu i greu amgylchedd priffordd diogelach, yn enwedig i ddefnyddwyr agored i niwed megis cerddwyr a beicwyr; yn ogystal â gwella diogelwch ar gyfer trigolion sy'n mynd i mewn i Thornhill Road o'r ffordd ochr. Cafodd y Gorchymyn Rheoli Traffig sy'n gysylltiedig â'r newid yn y cyfyngiad cyflymder ei hysbysebu a'i selio yn 2017.

Mae angen y cynllun i gyflawni amod cynllunio yn rhan o'r cais cynllunio y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Ar y sail hon, mae'r Cyngor yn rhoi gwybodaeth am elfen twmpathau ffordd y cynllun yn unig mewn cydymffurfiaeth â Rheoliadau Priffordd (Twmpathau Ffordd) 1999.

Rhaqor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig:

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol sy'n gorfodi gyrwyr i leihau cyflymder eu cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth, cylchfannau a nodweddion tebyg.

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Dyma'r cyfyngiadau a osodir ar y Briffordd sy'n cyfeirio, rheoli a gwahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft cyfyngiadau cyflymder 20mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Un Ffordd. Dim Aros. Mae'r rheoliadau hyn yn destun proses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, caiff arwyddion neu linellau eu gosod a bydd yr Heddlu neu ei Wardeniaid Traffig yn eu gorfodi.

Bwrdd Arafu. Dyma amrywiad ar y twmpath arafu lle mae top yr ardal wedi'i godi (dirchafedig) dros ddau fetr o led. Mae hyn yn peri llai o anghysur i deithwyr bysus gan fod y symudiadau lan a lawr wedi'u gwahanu gan yr adran wastad. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau i gerddwyr i leihau cyflymderau ac i wneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Ynys Draffig. Ynys Draffig yw ardal yng nghanol y ffordd gyda chyrbau o'i chwmpas fel na all cerbydau yrru ar ei thraws ac fel arfer mae arwydd 'cadwch i'r chwith' neu folard goleuedig wedi'u gosod arni. Cânt eu defnyddio yn rhan o loches i gerddwyr, i greu croesfan groesgam, i reoli symudiadau cerbydau wrth gylchfannau neu gyffyrdd eraill. Gall math arbennig ymddangos i fod yn gylchfan fach, ond heb unrhyw freichiau ffordd ymyl.

Croesfan Sebra. Mae'r math hwn o groesfan yn addas ar gyfer mannau lle mae nifer resymol o gerddwyr yn croesi neu lif rhesymol o draffig lle na chyfiawnheir croesfan pâl. Gallant fod yn well i gerddwyr gan nad oes rhaid aros am amser penodol i gael yr hawl i groesi. Gallant fod yn ddefnyddiol wedi'u cyfuno â rhwystrau ymwthiol sy'n gwella gwelededd i ac o gerbydau, lleihau pellteroedd croesi a'i gwneud hi'n gliriach pan fo cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.


Croesfan Sebra Ymwthiol Mae hyn yn golygu croesfan sebra lle y gosodir rhwystrau ymwthiol hefyd er mwyn lleihau maint y ffordd i'r maint lleiaf ar gyfer traffig dwy ffordd. Mae hyn yn gwella gwelededd i gerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan. Weithiau, gall bwrdd arafu fod yn rhan o'r dyluniad.

Croesfan Sebra Ddyrchafedig Mae hyn yn golygu croesfan sebra sydd â bwrdd arafu neu sydd wedi'i lleoli wrth gyffordd ddyrchafedig, naill ai'n rhan o set ehangach o fesurau arafu traffig neu ar ei phen ei hun.

Rhwyrstr Ymwthiol. Dyma adran o'r droedffordd sydd wedi'i lledu. Gellir defnyddio'r rhain mewn amryw ffyrdd megis ail-siapio cyffyrdd, diffinio ardaloedd parcio a lleihau pellteroedd croesi ffordd i gerddwyr. Gallant wella gwelededd i gerddwyr neu yrwyr sy'n aros wrth gyffordd.

Mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2037 6545 i ofyn am gopi papur.



The Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this scheme are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2037 6545 to request a paper copy.